
## Sut mae lluniad orthograffig cyflawn yn edrych?


Mae'r lluniad isod yn dangos lluniad orthograffig o iPod Nano. Mae'n dilyn y safonau yr ydym ni wedi edrych arnynt o safbwynt gosodiad a lleoliad y golygon. Mae'r rhain wedi'u labelu mewn llythrennau bras. Mae'r dimensiynau yn cael eu hychwanegu mewn mm gan ddilyn y safonau cywir. Defnyddiwyd y bloc teitl ac mae ynddo wybodaeth am raddfa, tafluniad, enw'r dylunydd a'r dyddiad dylunio. Mae hwn mewn tafluniad orthograffig trydedd ongl.




Ar y lluniad ceir hefyd llun o'r cynnyrch sydd wedi'i luniadu a hefyd logo'r cwmni. Yn yr achos hwn, Apple yn California sy'n gweithgynhyrchu'r cynnyrch. Dylid hefyd cydnabod y dylunydd Jonathan Ive.


# TASG LUNIADU iPod Nano.

Dyma daflen ymarfer y gallwch chi ei defnyddio i gwblhau pob golwg ac ychwanegu dimensiynau at yr iPod Nano.




Gellir gwneud y cynnyrch hefyd gan ddefnyddio meddalwedd CAD yn 2D Design neu gyda meddalwedd modelu 3D megis Pro Desk Top neu Pro Engineer.






## Braslunio a Chynllunio Lluniad Orthograffig

Mae'n helpu os wnewch chi gynllunio'r hyn fyddwch chi'n ei luniadu cyn dechrau. Byddai hyn yn golygu cyfrifo'r meintiau os ydych chi'n dylunio cynnyrch newydd, neu fesur rhywbeth rydych chi am ei luniadu. Er mwyn lluniadu'r lluniad orthograffig iPod Nano, gwnaed braslun ac ychwanegu'r dimensiynau ato i'w gynllunio. Cynlluniwyd pob golwg i'w luniadu hefyd.

